



ADRODDIADAU ARHOLWYR TAG

**TAG (NEWYDD)
HANES
UG/Uwch**

HAF 2019

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Uned	Tudalen
Uned 1: astudiaethau o gyfnod	1
Uned 2: astudiaethau manwl (rhan un)	5
Uned 3: astudiaethau eang	9
Uned 4: astudiaethau manwl (rhan dau)	13
Uned 5: asesiad di-arholiad	17

HANES

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2019

Uwch Gyfrannol/Uwch

UNED 1: ASTUDIAETHAU O GYFNOD

Sylwadau Cyffredinol

Yn 2019, nododd yr arholwyr welliant yn ansawdd yr ymatebion i gwestiynau Adran B a lleihad yn nifer y sgriptiau a oedd i raddau helaeth yn rhestru nodiadau ar ffactorau a datblygiadau a oedd yn berthnasol i'r pwnc a astudiwyd. Cafodd y gwelliant hwn ei adlewyrchu yn y marc cymedrig uwch ar gyfer Uned 1 eleni. Er gwaethaf y gwelliant a nodir uchod, nid yw nifer sylweddol o sgriptiau yn cynnig yr ymdriniaeth lawn sy'n ofynnol gan yr amrediad dyddiadau yn y cwestiwn a osodwyd, ac mae'n ymddangos bod llawer o ymgeiswyr yn adolygu testunau yn hytrach nag adolygu mewn ffordd ddethol; mae hon yn gêm beryglus i'w chwarae wrth baratoi ar gyfer arholiad. Caiff cwestiynau eu gosod ar hap, ac felly dyma rybuddio'n gryf rhag ceisio dyfalu cynnwys cwestiynau.

Nododd yr arholwyr bod dull mecanyddol o ddisgrifio datblygiadau dros y cyfnod dan sylw yn amlwg i'w weld mewn llawer o'r sgriptiau, gyda mân farnau ar ddiwedd pob paragraff yn hytrach na beirniadaeth gyffredinol, bendant ar brif gysyniad y cwestiwn a osodwyd. Nodwyd hefyd bod cwestiynau achosiad yn aml yn esgor ar ddim mwy na rhestr o achosion heb fawr ddim ymdrech i werthuso pwysigrwydd cymharol achos penodol.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Uned 1.1: Llywodraeth, gwrthryfel a chymdeithas yng Nghymru a Lloegr, tua 1485–1603

Cofrestrwyd 1065 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn. Cwestiwn 1 oedd y cwestiwn mwyaf poblogaidd yn Adran A (528 o ymgeiswyr); fodd bynnag, roedd canlyniadau'r cwestiwn hwn a Chwestiwn 2 (514 o ymgeiswyr) yn debyg iawn o ran cyrhaeddiad yr ymgeiswyr. Roedd ychydig mwy o raniad yn Adran B, o ran nifer yr ymgeiswyr a wnaeth roi cynnig ar y cwestiynau. Roedd Cwestiwn 4 yn fwy poblogaidd o lawer (724 o ymgeiswyr) na Chwestiwn 3 (306 o ymgeiswyr), ac mae'n ymddangos bod Cwestiwn 3 ychydig yn fwy hylaw i'r ymgeiswyr.

Mae'n ymddangos nad oedd rhai o'r ymgeiswyr yn gallu gwahaniaethu rhwng y prif gysyniad a'r prif fater, sy'n destun pryder. Roedd eraill fel pe na baent yn ymwybodol o'r terfyn dyddiadau a osodwyd yn y cwestiwn. Oherwydd hyn, mewn sawl achos, cynigiodd ymgeiswyr ymdriniaeth fanwl o ddigwyddiadau nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiad â'r cwestiwn. Aeth eraill i'r afael â'r cwestiwn mewn ffordd gronolegol, ac yn aml, roedd y mathau hyn o ymatebion yn methu ag ymgysylltu cymaint â'r cwestiwn â'r ymatebion hynny a ddefnyddiodd ddull mwy thematig.

Uned 1.2: Llywodraeth, chwyldro a chymdeithas yng Nghymru a Lloegr, tua 1603–1715

Cofrestrwyd 79 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn. Cwestiwn 1 oedd y cwestiwn mwyaf poblogaidd yn Adran A (59 o ymgeiswyr); fodd bynnag, roedd canlyniadau'r cwestiwn hwn a Chwestiwn 2 (19 o ymgeiswyr) yn debyg iawn o ran cyrhaeddiad yr ymgeiswyr. Roedd rhaniad anghyfartal yn Adran B hefyd, o ran nifer yr ymgeiswyr a wnaeth roi cynnig ar y cwestiynau. Roedd Cwestiwn 3 yn fwy poblogaidd (49 o ymgeiswyr) na Chwestiwn 3 (29 o ymgeiswyr), ond roedd canlyniadau'r ddau yn debyg o ran cyrhaeddiad yr ymgeiswyr.

Mae'n ymddangos nad oedd rhai o'r ymgeiswyr yn gallu gwahaniaethu rhwng y prif gysyniad a'r prif fater, sy'n destun pryder. Roedd eraill fel pe na baent yn ymwybodol o'r terfyn dyddiadau a osodwyd yn y cwestiwn. Oherwydd hyn, mewn sawl achos, cynigiodd ymgeiswyr ymdriniaeth fanwl o ddigwyddiadau nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiad â'r cwestiwn. Aeth eraill i'r afael â'r cwestiwn mewn ffordd gronolegol, ac yn aml, roedd y mathau hyn o ymatebion yn methu ag ymgysylltu cymaint â'r cwestiwn â'r ymatebion hynny a ddefnyddiodd ddull mwy thematig.

Uned 1.3: Gwleidyddiaeth, protest a diwygio yng Nghymru a Lloegr, tua 1780–1880

Cofrestrwyd 688 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn. Cwestiwn 2 oedd y cwestiwn mwyaf poblogaidd yn Adran A (364 o ymgeiswyr) ac roedd yr ymgeiswyr wedi llwyddo i ymdopi ag ef ychydig yn well na Chwestiwn 1 (309 o ymgeiswyr). Roedd ychydig mwy o raniad yn Adran B, o ran nifer yr ymgeiswyr a wnaeth roi cynnig ar y cwestiynau. Roedd Cwestiwn 3 yn fwy poblogaidd (388 o ymgeiswyr) na Chwestiwn 4 (283 o ymgeiswyr), ac unwaith eto, roedd y cwestiwn hwn ychydig yn fwy hylaw i'r ymgeiswyr.

Uned 1.4: Gwleidyddiaeth, Pobl a Chynnydd yng Nghymru a Lloegr, tua 1880–1980

Cofrestrwyd 508 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn. Cwestiwn 1 oedd y cwestiwn mwyaf poblogaidd o bell ffordd yn Adran A (408 o ymgeiswyr); fodd bynnag, roedd canlyniadau'r cwestiwn hwn a Chwestiwn 2 (92 o ymgeiswyr) yn debyg iawn o ran cyrhaeddiad yr ymgeiswyr. Roedd rhaniad anghyfartal yn Adran B hefyd, o ran nifer yr ymgeiswyr a wnaeth roi cynnig ar y cwestiynau. Roedd Cwestiwn 4 yn fwy poblogaidd o lawer (403 o ymgeiswyr) na Chwestiwn 3 (98 o ymgeiswyr); fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi ymdopi â'r ddau gwestiwn cystal â'i gilydd.

Ar gyfer Cwestiwn 1, roedd angen i ymgeiswyr nodi'r "sialensiau cymdeithasol", ac ar gyfer Cwestiwn 2, roedd angen iddynt fynd i'r afael â datblygiadau a "gafodd effaith ar fywydau pobl". Pe bai ymgeiswyr wedi treulio rhywfaint o amser yn myfyrio ar agweddau allweddol y cwestiynau, byddent wedi gallu cynnig atebion â llawer mwy o ffocws. Yn hytrach, roedd gormod ohonynt wedi gweld term roeddent yn gyfarwydd ag ef, ac yna'n mynd ati i boeri allan ateb a baratowyd ymlaen llaw gyda honiadau a mân farnau nad oedd yn mynd yn ddigon pell i esbonio eu hatebion. O ystyried bod hyn yn astudiaeth o gyfnod, disgwylir iddynt ymdrin â'r cyfnod; fodd bynnag, mae'n ymddangos bod diffyg gwybodaeth am ddigwyddiadau ar ôl 1951. Mae'n beryglus i ymgeiswyr anwybyddu'r cyfnod hwn, gan ei bod yn bosibl ac yn gwbl o fewn y rheolau i bapur arholiad ganolbwyntio'n unig ar ddigwyddiadau ar ôl 1951.

Uned 1.5: Newid gwleidyddol a chrefyddol yn Ewrop, tua 1500–1598

Cofrestrwyd 83 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn. Cwestiwn 1 oedd y cwestiwn mwyaf poblogaidd yn Adran A (57 o ymgeiswyr); fodd bynnag, mae'n ymddangos ei fod ychydig yn llai hylaw i'r ymgeiswyr na Chwestiwn 2 (22 o ymgeiswyr). Roedd rhaniad anghyfartal yn Adran B hefyd, o ran nifer yr ymgeiswyr a wnaeth roi cynnig ar y cwestiynau. Roedd Cwestiwn 3 yn fwy poblogaidd o lawer (58) na Chwestiwn 4 (21), ond ar yr achlysur hwn, roedd y cwestiwn mwy poblogaidd ychydig yn fwy hydrin.

Roedd rhai ymgeiswyr yn dueddol o restru, neu ddisgrifio'n fanwl, yn hytrach na mynd i'r afael â'r cysyniad allweddol. Yn Adran B, roedd tueddiad i ganolbwyntio ar faterion cyffredinol y cwestiwn yn hytrach na rhoi gwerthusiad penodol a barnu fel yr oedd y cwestiwn yn ei ofyn.

Uned 1.6: Ewrop mewn oes o absoliwtiaeth a chwyldro, tua 1682–1815

Cofrestrwyd 14 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn. Cwestiwn 1 oedd y cwestiwn mwyaf poblogaidd yn Adran A (13 o ymgeiswyr); fodd bynnag, roedd canlyniadau'r cwestiwn hwn a Cwestiwn 2 (1 ymgeisydd) yn debyg iawn o ran cyrhaeddiad yr ymgeiswyr. Roedd rhaniad anghyfartal yn Adran B hefyd, o ran nifer yr ymgeiswyr a wnaeth roi cynnig ar y cwestiynau. Roedd Cwestiwn 4 yn fwy poblogaidd o lawer (13 o ymgeiswyr) na Chwestiwn 3 (1 ymgeisydd); fodd bynnag, roedd y cyrhaeddiad yn wahanol, gyda Chwestiwn 4 i'w weld ychydig yn fwy hylaw i'r rheini a roddodd gynnig arno.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn dangos bod yr ymgeiswyr wedi deall y cwestiynau. Roedd angen i'r rheini a ddewisodd Gwestiwn 4 daro cydbwysedd rhwng y problemau a'r manteision er mwyn osgoi ymateb anghytbwys. Mae ymdrin â'r cyfnod i gyd yn dal i fod yn broblem ar gyfer ymatebion yn y bandiau marciau is.

Uned 1.7: Chwyldro a syniadau newydd yn Ewrop, tua 1780–1881

Cofrestrwyd 60 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn. Roedd y ddau gwestiwn hyn yr un mor boblogaidd â'i gilydd (29 o ymgeiswyr yr un) ac roedd canlyniadau'r ddau yn debyg iawn o ran cyrhaeddiad yr ymgeiswyr. Roedd mwy o raniad yn Adran B, o ran nifer yr ymgeiswyr a wnaeth roi cynnig ar y cwestiynau. Roedd Cwestiwn 3 yn fwy poblogaidd o lawer (44 o ymgeiswyr) na Chwestiwn 4 (15 o ymgeiswyr) ac mae'n ymddangos bod Cwestiwn 3 ychydig yn llai hylaw i'r ymgeiswyr.

Ar y gorau, roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau yn gyfres o farnau bach a oedd yn gysylltiedig â'r prif gysyniad, ond nad oedd yn ymgysylltu'n llawn â'r union gwestiwn. Roedd llawer o'r ymatebion yn ddim mwy na rhestr gyffredinol o ddatblygiadau ar ffurf amrywiaeth o honiadau heb eu cefnogi. Ar y cyfan, lle roedd angen creu dadl ystyrlon, cynigiwyd trafodaeth gyffredinol.

Uned 1.8: Ewrop mewn oes o wrthdaro a chydweithredu, tua 1890–1991

Cofrestrwyd 526 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn. Cwestiwn 2 oedd y cwestiwn mwyaf poblogaidd yn Adran A (369 o ymgeiswyr); fodd bynnag, roedd canlyniadau'r cwestiwn hwn a Chwestiwn 2 (145 o ymgeiswyr) yn debyg iawn o ran cyrhaeddiad yr ymgeiswyr. Roedd rhaniad mwy cyfartal yn Adran B, o ran nifer yr ymgeiswyr a wnaeth roi cynnig ar y cwestiynau. Roedd Cwestiwn 3 yn fwy poblogaidd (282 o ymgeiswyr) na Chwestiwn 4 (228 o ymgeiswyr), ac unwaith eto, hwn oedd y cwestiwn mwyaf poblogaidd a oedd ychydig yn fwy hylaw i'r ymgeiswyr.

Yn rhy aml o lawer, mae ymgeiswyr yn osgoi mynd i'r afael â'r mater a osodwyd ac yn lle hynny, yn palu drwy ddigwyddiadau o'r cyfnod. O ganlyniad, roedd y barnau yn aml heb unrhyw gysylltiad â'r cwestiwn a osodwyd, ac roeddent yn aml yn ddi-sail. Er bod y wybodaeth ffeithiol y cyfeiriwyd ati ar gyfer Cwestiwn 3 yn dda ar y cyfan, nid oedd hyn yn wir ar gyfer Cwestiwn 4, lle mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi chwarae gêm beryglus gan ddewis a dethol pa destunau i'w hadolygu. Mae'n ymddangos bod llawer o'r ymgeiswyr wedi cloffi pan na chafodd y testunau roeddent wedi dewis eu hadolygu eu defnyddio yn y papur arholiad penodol hwn.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Mae'r ymatebion gorau'n gallu trafod yr union gysyniad yn y cwestiwn a osodwyd, dadansoddi'r materion a gwerthuso ei bwysigrwydd cyn llunio barn a brofwyd.
- Mae arholwyr yn yr astudiaeth o gyfnod yn chwilio am ymdriniaeth o'r cyfnod o fewn yr amrediad dyddiadau a nodwyd, dadl ar brif gysyniad y cwestiwn a barn briodol a chytbwys sy'n deillio o'r ddadl a wnaed yn y traethawd.
- Mae casgliad sy'n crynhoi'r ddadl ac yn barnu ar sail y ddadl honno yn fwy trawiadol o lawer na chyfres o farnau sydd wedi'u hychwanegu'n fecanyddol ar ddiwedd pob paragraff.

HANES

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2019

Uwch Gyfrannol/Uwch

UNED 2: ASTUDIAETHAU MANWL (RHAN UN)

Sylwadau Cyffredinol

Roedd rhai o'r gwelliannau cyffredinol a nodwyd yn Uned 2 y llynedd i'w gweld eto yn y rownd hon o arholiadau, a da oedd gweld bod llawer o'r canolfannau wedi talu sylw i'r canllawiau a rannwyd gan yr uwch arholwyr yn y sesiynau datblygu proffesiynol y llynedd.

Ar y cyfan, yng Nghwestiwn 1 a Chwestiwn 2 fel ei gilydd, mae mwy o ymwybyddiaeth gyd-destunol yn dod i'r amlwg. Serch hyn, er bod mwy o ymwybyddiaeth gyd-destunol sy'n benodol i ddyddiad o ran tarddiad y ffynonellau yng Nghwestiwn 1, yn aml, nid yw hyn yr un mor wir am gyd-destun yr ymholiad cyffredinol. Yng Nghwestiwn 2, roedd mwy o ymwybyddiaeth gyd-destunol mewn perthynas â'r deunydd a ddefnyddir gan haneswyr er mwyn cyrraedd eu dehongliadau. Fodd bynnag, mae angen o hyd i Ganolfannau annog ymgeiswyr i ddangos eu bod yn ymwybodol nad yw dehongliadau hanesyddol yn sefydlog a'u bod yn gallu newid.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Uned 2.1: Argyfwng canol Oes y Tuduriaid yng Nghymru a Lloegr, tua 1529-1570—problemau, bygythiadau a sialensiau, tua 1529–1553

Cofrestrwyd 151 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd bron pob un o'r rheini a safodd yr arholiad i'r ddwy adran yn unol â'r gofyn. Ymatebodd pob ymgeisydd i Gwestiwn 1, ond dim ond 149 a ymatebodd i Gwestiwn 2. Mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi ei chael hi ychydig yn haws asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd—fel roedd yn ofynnol yng Nghwestiwn 1—nag ateb gofyniad Cwestiwn 2 i ddadansoddi a gwerthuso safbwyntiau'r haneswyr a nodwyd.

Serch hyn, ar gyfer Cwestiwn 1, mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr yn hapus i ddibynnu ar werthusiad fesul ffynhonnell, sy'n dueddol o atal dealltwriaeth gyfannol o'r ffynonellau yn eu cyd-destun ehangach a gwerthfawrogi eu cyfraniad i newid dros gyfnod o amser.

Uned 2.2: Brenhiniaeth, gwrthryfel a gweriniaeth, tua 1625–1660—y pwysau ar y frenhiniaeth a'r symudiad i gyfeiriad rhyfel cartref, tua 1625–1642

Cofrestrwyd 185 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd pob un o'r 179 a safodd yr arholiad i'r ddwy adran yn unol â'r gofyn. Mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi ei chael hi fymryn yn haws asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd—fel roedd yn ofynnol yng Nghwestiwn 1—nag ateb gofyniad Cwestiwn 2 i ddadansoddi a gwerthuso safbwyntiau'r haneswyr a nodwyd.

Serch hyn, ar gyfer Cwestiwn 1, mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr yn hapus i ddibynnu ar werthusiad fesul ffynhonnell, sy'n dueddol o atal dealltwriaeth gyfannol o'r ffynonellau yn eu cyd-destun ehangach a gwerthfawrogi eu cyfraniad i newid dros gyfnod o amser.

Uned 2.3: Diwygio a phrotest yng Nghymru a Lloegr, tua 1783–1848—radicaliaeth a'r frwydr dros ddiwygio seneddol, tua 1783–1832

Cofrestrwyd 231 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd bron pob un o'r rheini a safodd yr arholiad i'r ddwy adran yn unol â'r gofyn. Ymatebodd 228 o'r ymgeiswyr i Gwestiwn 1, ond dim ond 227 a ymatebodd i Gwestiwn 2. Mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi ei chael hi fymryn yn haws asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd—fel roedd yn ofynnol yng Nghwestiwn 1—nag ateb gofyniad Cwestiwn 2 i ddadansoddi a gwerthuso safbwyntiau'r haneswyr a nodwyd.

Yn yr opsiwn hwn, nododd yr arholwyr y bu rhywfaint o welliant wrth nodi cynnwys penodol y ffynonellau yng Nghwestiwn 1, sydd i'w ganmol. Gobeithio y caiff hyn ei ddatblygu ymhellach mewn sesiynau yn y dyfodol.

Uned 2.4: Gwleidyddiaeth a chymdeithas yng Nghymru a Lloegr, tua 1900–1939—gwleidyddiaeth, cymdeithas a'r rhyfel: Cymru a Lloegr, tua 1900–1918

Cofrestrwyd 67 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn; fodd bynnag mae'n ymddangos mai dim ond 66 o'r ymgeiswyr a safodd yr arholiad, gan ateb y ddwy adran yn unol â'r gofyn. Mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi ei chael hi'n haws asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd—fel oedd yn ofynnol gan Cwestiwn 1—nag ateb gofyniad Cwestiwn 2 i ddadansoddi a gwerthuso safbwyntiau'r haneswyr a nodwyd.

Ar gyfer cwestiwn 1, dim ond ychydig o'r ymgeiswyr a edrychodd ar y tair ffynhonnell gyda'i gilydd, gyda'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn mynd ati fesul un. Gyda'i gilydd, roedd y ffynonellau'n dangos datblygiad yr ymgyrch dros etholfraint i fenywod; o ennill cydymdeimlad, i'r ysbryd milwriaethus cynyddol, i gydweithredu yn ystod y rhyfel. Y cam diwethaf hwn a'i gwnaeth yn bosibl i'r Llywodraeth roi pleidlais i fenywod heb gael ei chyhuddo o ildio i'r ymgyrch. Ar gyfer Cwestiwn 1, ymdriniodd yr ymgeiswyr a berfformiodd orau â'r ymholiad gosod gan roi'r ffynhonnell yn ei chyd-destun, ac esbonio pam y cafodd digwyddiadau'r cyfnod ddylanwad ar yr awdur. Fodd bynnag, darparodd llawer o'r ymgeiswyr ddim mwy na chyd-destun hanesyddol, sef naratif o'r hyn roedd y Swffragetiaid yn ei wneud cyn 1941 yn bennaf. Ar gyfer Cwestiwn 2, cafodd yr ymatebion eu llesteirio gan ddiffyg gwybodaeth am y ddadl hanesyddol ehangach. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, nid oedd yr ymgeiswyr yn gwybod sut nac, yn benodol, *pam* yr oedd safbwyntiau am ddirywiad y Blaid Ryddfrydol wedi newid dros amser.

Uned 2.5: Diwygiad crefyddol yn Ewrop, tua 1500–1567—dechreuad a lledaeniad y Diwygiad Protestannaidd yn yr Almaen, tua 1500–1531

Cofrestrwyd 59 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd bron pob un a safodd yr arholiad i'r ddwy adran yn unol â'r gofyn. Ymatebodd 58 o'r ymgeiswyr i Gwestiwn 1, ond dim ond 57 a ymatebodd i Gwestiwn 2. Mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi ei chael hi fymryn yn haws asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd—fel roedd yn ofynnol yng Nghwestiwn 1—nag ateb gofyniad Cwestiwn 2 i ddadansoddi a gwerthuso safbwyntiau'r haneswyr a nodwyd.

Yn yr ymatebion i Gwestiwn 1, gwelwyd llawer o achosion o ymdrin â'r ffynhonnell mewn modd fformiwlâig wrth werthuso: defnyddioldeb; dibynadwyedd; pwrpas; a thôn, na chawsant eu cysylltu naill ai â chyd-destun y tair ffynhonnell na gwerth y ffynonellau i'r hanesydd. Ar gyfer Cwestiwn 2, tueddai'r dadansoddiad o'r priodoliadau fod yn amrywiadau ar ddadansoddi ffynonellau, er enghraifft, pa ffynhonnell oedd fwyaf dibynadwy neu ddilys, yn hytrach na mynd at wraidd y ffordd roedd yr haneswyr hyn wedi ffurfio eu barn a pham roedd eu casgliadau'n wahanol.

Uned 2.6: Ffrainc yng nghyfnod y chwyldro, tua 1774–1815–Ffrainc: achosion a hynt y chwyldro, tua 1774–1792

Cofrestrwyd 173 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd bron pob un o'r rheini a safodd yr arholiad i'r ddwy adran yn unol â'r gofyn. Ymatebodd 170 o'r ymgeiswyr i Gwestiwn 1, ond dim ond 169 a ymatebodd i Gwestiwn 2. Nid oedd fawr ddim gwahaniaeth amlwg o ran pa mor anodd oedd y cwestiynau i'r ymgeiswyr, gyda chanlyniadau tebyg iawn ar gyfer Cwestiwn 1 (asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd) a Chwestiwn 2 (y dadansoddiad a'r gwerthusiad o safbwyntiau'r haneswyr a nodwyd).

Dangosodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr ym mha ffordd roedd y ffynonellau o werth i hanesydd. Gwelwyd rhywfaint o dystiolaeth o ymdriniaeth fecanistig, ond roedd digon o gyd-destun hanesyddol cyffredinol, a chywir, i'w weld hefyd. Mae'r cwestiwn dehongli yn dal i beri rhywfaint o broblemau, ond llwyddodd y rhan fwyaf i'w gyflawni'n foddhaol.

Uned 2.7: Argyfwng y weriniaeth Americanaidd, tua 1840–1877–gwahaniaethau adrannol a'r llwybr i ryfel cartref, tua 1840–1861

Cofrestrwyd 146 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd bron pob un o'r rheini a safodd yr arholiad i'r ddwy adran yn unol â'r gofyn. Ymatebodd 142 o'r ymgeiswyr i Gwestiwn 1, ond dim ond 141 a ymatebodd i Gwestiwn 2. Mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi ei chael hi'n haws asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd—fel oedd yn ofynnol gan Cwestiwn 1—nag ateb gofyniad Cwestiwn 2 i ddadansoddi a gwerthuso safbwyntiau'r haneswyr a nodwyd.

Yn yr opsiwn hwn, nododd yr arholwyr y bu rhywfaint o welliant wrth nodi cynnwys penodol y ffynonellau yng Nghwestiwn 1, sydd i'w ganmol. Gobeithio y caiff hyn ei ddatblygu ymhellach mewn sesiynau yn y dyfodol.

Uned 2.8: Yr Almaen: democratiaeth i unbennaeth, tua 1918–1945–Weimar a'i sialensiau, tua 1918–1933

Cofrestrwyd 1783 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn; fodd bynnag, mae'n ymddangos bod nifer o'r ymgeiswyr hynny wedi dewis peidio â sefyll yr arholiad. O'r rheini a'i safodd, ymatebodd bron pob un ohonynt i'r ddwy adran yn unol â'r gofyn. Ymatebodd 1697 o'r ymgeiswyr i Gwestiwn 1, ond dim ond 1691 a ymatebodd i Gwestiwn 2. Mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi ei chael hi'n haws asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd—fel oedd yn ofynnol gan Cwestiwn 1—nag ateb gofyniad Cwestiwn 2 i ddadansoddi a gwerthuso safbwyntiau'r haneswyr a nodwyd.

Yng Nghwestiwn 1, crwydrodd llawer o'r ymgeiswyr i drafodaeth o ddefnyddioldeb gan fethu â dod i farn resymegol ar werth ffynhonnell i hanesydd sy'n astudio'r mater dan sylw. Mae llawer o'r ymgeiswyr yn dal i honni bod ffynhonnell yn werthfawr i hanesydd yn rhinwedd ei chynnwys; fodd bynnag, nid yw hon yn farn resymegol ar y cwestiwn dan sylw ond yn hytrach yn grynoded o'r ffynhonnell. Cynghorir yr ymgeiswyr bod cyd-destun priodol yn benodol i ddyddiadau ac ni all ystyried yr hyn a allai ddatblygu yn y dyfodol na'r hyn sydd wedi digwydd eisoes. Ar gyfer Cwestiwn 2, er na chafodd yr ymgeiswyr llawer o drafferth i nodi'r ddau ddehongliad a ddarparwyd, roedd y sylwadau ar awduraeth yn fecanistig ac yn cynnig fawr ddim ffocws ar y cyd-destun hanesyddol ehangach. At hynny, methodd llawer o'r ymgeiswyr â chynnig dehongliad amgen a phan wnaed hyn, crwydrodd cyfran sylweddol ohonynt oddi wrth y cwestiwn a osodwyd.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Mae angen i'r ymgeiswyr gysylltu eu hymwybyddiaeth gyd-destunol â datblygiadau a themâu ym mhob Astudiaeth Fanwl ac mewn perthynas â phob un o'r tair ffynhonnell.
- Mae angen llai o werthusiadau mecanistig o'r ffynonellau, ac mae'n rhaid i'r ymgeiswyr osgoi seilio eu hymatebion ar ddim ond y wybodaeth yn y ffynonellau a'u tarddiadau unigol.
- Mae angen i'r ymgeiswyr ganolbwyntio ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar haneswyr wrth iddynt lunio eu barn.
- Mae angen i'r ymgeiswyr osgoi troi at yr hyn sy'n cael ei alw yn farn *synthesis* fel dehongliad posibl arall o'r ymholiad gosod. Y cyfan yw hyn, mewn gwirionedd, yw cyfuniad o'r ddau ddehongliad a nodir yn y dyfyniadau. Mae angen i'r ymgeiswyr nodi dehongliadau posibl eraill yn glir a'u datblygu.
- Mae'n rhaid i ysgolion o feddwl, ddod a heddiw—Ile maen nhw'n cael eu nodi—gael eu cysylltu â'r rhesymau sut a pham y caiff dehongliadau eu ffurfio, a sut a pham y mae dehongliadau hanesyddol yn newid.

HANES

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2019

Uwch Gyfrannol/Uwch

UNED 3: ASTUDIAETHAU EANG

Sylwadau Cyffredinol

Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn gwybod bod traethodau Astudiaeth Eang wedi'u cynllunio mewn ffordd sy'n annog ymgeiswyr i ymdrin â'r cysyniadau a osodir yn y cwestiwn mewn ffordd gronolegol ac yn fwy llawn, ond mae ansawdd yr ymatebion yn amrywio'n sylweddol. Roedd y papurau'n hygyrch i'r ymgeiswyr, a chynigiodd llawer o'r ymgeiswyr wybodaeth fanwl am y themâu ond heb ganolbwyntio ar ofynion mwy cyfannol yr Astudiaeth Eang. Roedd hyn yn arbennig o amlwg i'w weld yng nghwestiynau Adran B, lle roedd ymdriniaeth o'r cyfnod i gyd yn broblem.

Cafwyd llai o enghreifftiau o restru ac ymatebion naratif, ond mae'r ymgeiswyr gwannaf yn dal i ddibynnu ar adalw'r digwyddiadau yn seiliedig ar wybodaeth yn hytrach na dadansoddi, gwerthuso a thrafod y materion er mwyn llunio barn.

Mae'n dod i'r amlwg bod llawer o'r canolfannau yn rhoi fframwaith i'w hymgeiswyr er mwyn ysgogi "dadl" drwy amlinellu nifer o ffactorau mewn cyfres o baragraffau, cyn llunio mân farn ar bob un mewn perthynas â'r ymadrodd gwerthusol a nodwyd yn yr ymarfer. Mae hyn yn dueddol o greu ymatebion lle caiff yr ymadrodd allweddol ei ailadrodd yn ddiddiwedd heb gael fawr ddim effaith werthusol.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Uned 3.1: Cymru: gwrthwynebiad, goresgyn a gwrthryfel, tua 1240–1415

Cofrestrwyd 4 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd pob un ohonynt i'r ddau gwestiwn yn unol â'r gofyn. Roedd 4 ymateb i Gwestiwn 3, a oedd yn gwestiwn gorfodol, gyda 3 ymateb i Gwestiwn 1, a oedd yn gwestiwn dewisol, ac 1 ymateb i Gwestiwn 2, a oedd yn gwestiwn dewisol. O'r rhain, roedd Cwestiwn 1 a Chwestiwn 3 yr un mor hylaw â'i gilydd i'r ymgeiswyr, gyda Chwestiwn 2 yn peri ychydig mwy o broblemau.

Ar y cyfan, roedd diffyg ymwybyddiaeth—neu o leiaf cyndynrwydd i drafod—cyflymder y newid dros y cyfnod, gydag ymgeiswyr yn defnyddio dull cronolegol o ateb y cwestiynau yn hytrach na dull thematig.

Uned 3.2: Tlodi, protest a gwrthryfel yng Nghymru a Lloegr, tua 1485-1603

Cofrestrwyd 89 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd pob un ohonynt i'r ddau gwestiwn yn unol â'r gofyn. Roedd 89 o ymatebion i Gwestiwn 3, a oedd yn orfodol, gyda 63 o ymatebion i Gwestiwn 1, a oedd yn ddewisol, a 26 o ymatebion i Gwestiwn 2 a oedd yn ddewisol. O'r rhain, Cwestiwn 2 oedd yr un y llwyddodd yr ymgeiswyr i'w ateb fwyaf llwyddiannus, wedi'i ddilyn gan Gwestiwn 2, ac yna, yn dynn ar ei sodlau, Gwestiwn 1.

Ar y cyfan, roedd diffyg ymwybyddiaeth—neu o leiaf cyndynrwydd i drafod—cyflymder y newid dros y cyfnod, gydag ymgeiswyr yn defnyddio dull cronolegol o ateb y cwestiynau yn hytrach na dull thematig.

Uned 3.3: Diwygio a darganfod: Ewrop, tua 1492–1610

Cofrestrwyd 12 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd pob un ohonynt i'r ddau gwestiwn yn unol â'r gofyn. Roedd 12 o ymatebion i Gwestiwn 3, a oedd yn orfodol, gyda 5 o ymatebion i Gwestiwn 1, a oedd yn ddewisol, ac 7 o ymatebion i Gwestiwn 2 a oedd yn ddewisol. O'r rhain, Cwestiwn 2 oedd yr un y llwyddodd yr ymgeiswyr i'w ateb fwyaf llwyddiannus, wedi'i ddilyn yn agos gan Gwestiwn 1. Ni wnaeth yr ymgeiswyr berfformio cystal ar gyfer Cwestiwn 3, fodd bynnag.

Ychydig iawn o'r ymgeiswyr a allai ymdrin â'r cyfnod cyfan yn unrhyw un o'r cwestiynau a osodwyd. Yn ogystal, roedd yr amrywiaeth o faterion a drafodwyd yn yr ymatebion yn gyfyngedig, ac weithiau wedi'u cyfyngu i ddim ond y mater yn y cwestiynau eu hunain.

Uned 3.4: Brenhiniaeth, chwyldro ac adfer yng Nghymru a Lloegr tua 1603–1715

Cofrestrwyd 24 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn; fodd bynnag, mae'n ymddangos na safodd pob un o'r rhain yr arholiad. O'r rheini a'i safodd, atebodd pob un y ddau gwestiwn yn unol â'r gofyn. Roedd 23 o ymatebion i Gwestiwn 3, a oedd yn orfodol, gyda 16 o ymatebion i Gwestiwn 1, a oedd yn ddewisol, a 7 o ymatebion i Gwestiwn 2 a oedd yn ddewisol. O'r rhain, Cwestiwn 1 oedd yr un y llwyddodd yr ymgeiswyr i'w ateb fwyaf llwyddiannus, gyda Chwestiwn 3 ychydig ar ei ôl, ac yna, Gwestiwn 1.

Ar y cyfan, roedd diffyg ymwybyddiaeth—neu o leiaf cyndynrwydd i drafod—cyflymder y newid dros y cyfnod, gydag ymgeiswyr yn defnyddio dull cronolegol o ateb y cwestiynau yn hytrach na dull thematig.

Uned 3.5: Ffrainc: Yr *Ancien Régime* hyd Napoleon, tua 1715–1815

Cofrestrwyd 70 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn; fodd bynnag, mae'n ymddangos na safodd pob un o'r rhain yr arholiad. O'r rheini a'i safodd, atebodd pob un y ddau gwestiwn yn unol â'r gofyn. Roedd 69 o ymatebion i Gwestiwn 3, a oedd yn orfodol, gyda 25 o ymatebion i Gwestiwn 1, a oedd yn ddewisol, a 44 o ymatebion i Gwestiwn 2 a oedd yn ddewisol. O'r rhain, Cwestiwn 2 oedd yr un y llwyddodd yr ymgeiswyr i'w ateb fwyaf llwyddiannus, wedi'i ddilyn gan Gwestiwn 2, gyda Chwestiwn 1 yn dilyn yn agos.

Roedd y ddau gwestiwn yn Adran A yn hygyrch a chawsant eu hateb yn dda ar y cyfan. Mae angen i'r ymgeiswyr yr oedd eu hatebion yn y bandiau isaf gofio bod ymdrin â'r cyfnod cyfan yn ffactor pwysig. Achosodd Cwestiwn 3 broblem i rai o'r ymgeiswyr am eu bod wedi ei gamddehongli: yn hytrach na chanolbwyntio ar yr Eglwys Gatholig ac a oedd y newidiadau mwyaf yn ystod y cyfnod wedi effeithio arni ai peidio, aethant ati i gynnig newidiadau pwysig eraill fel rhyfel, a effeithiodd ar y gymdeithas.

Uned 3.6: Diwygio'r Senedd a Phrotest yng Nghymru a Lloegr, tua 1780–1885

Cofrestrwyd 149 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn; fodd bynnag, mae'n ymddangos na safodd pob un o'r rhain yr arholiad. O'r rheini a'i safodd, atebodd pob un y ddau gwestiwn yn unol â'r gofyn. Roedd 148 o ymatebion i Gwestiwn 3, a oedd yn orfodol, gyda 111 o ymatebion i Gwestiwn 1, a oedd yn ddewisol, ac 37 o ymatebion i Gwestiwn 2 a oedd yn ddewisol. O'r rhain, Cwestiwn 2 oedd yr un y llwyddodd yr ymgeiswyr i'w ateb fwyaf llwyddiannus, gyda Chwestiwn 3 yn dynn ar ei sodlau, ac yna, Gwestiwn 1.

Uned 3.7: Newid a diwygio cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr, tua 1890–1990

Cofrestrwyd 253 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn; fodd bynnag, ni wnaeth pob un ohonynt ateb y ddau gwestiwn yn unol â'r gofyn. Roedd 252 o ymatebion i Gwestiwn 3, a oedd yn orfodol, gyda 170 o ymatebion i Gwestiwn 1, a oedd yn ddewisol, a 83 o ymatebion i Gwestiwn 2 a oedd yn ddewisol. O'r rhain, Cwestiwn 2 oedd yr un y llwyddodd yr ymgeiswyr i'w ateb fwyaf llwyddiannus, wedi'i ddilyn yn agos iawn gan Gwestiwn 3 a Chwestiwn 1, y mae'r canlyniadau'n awgrymu eu bod yr un mor hygyrch â'i gilydd.

Mae angen i'r canolfannau ystyried y cyfnod rhwng 1890 a 1990 fel cyfnod o newid a diwygio cymdeithasol. Roedd pethau'n wahanol yn 1990 nag oeddent yn 1890 ac mae angen amlinellad ar yr ymgeiswyr o'r newidiadau hyn, yr hyn a'u hachosodd a'r effaith a gawsant. Mae gormod o ganolfannau yn amlwg yn dysgu am y diwygio Rhyddfrydol, rhyfel a diwygio Llafur, heb fynd i'r afael â'r cyfnod yn ei gyfanrwydd. Mae hyn yn llesteirio ymatebion yn gyffredinol, yn enwedig wrth drafod materion ar ôl 1951, y blynyddoedd rhwng y rhyfeloedd neu'r cyfnod ar ôl 1906, a gaiff ei anwybyddu i raddau helaeth. Pan fydd yr ymgeiswyr yn rhoi cynnig ar gwestiynau am y cyfnod ar ôl 1945 byddant yn gwneud yn dda, yn bennaf am fod ganddynt wybodaeth amlinellol dda am newidiadau yn y gymdeithas ac mae'n amlwg eu bod wedi mwynhau archwilio materion fel hawliau cyfartal i bawb.

Uned 3.8: Canrif yr Americanwyr, tua 1890–1990

Cofrestrwyd 1529 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn; fodd bynnag, mae'n ymddangos na safodd pob un o'r rhain yr arholiad ac o'r rheini a wnaeth, ni atebodd pob un ohonynt y ddau gwestiwn yn unol â'r gofyn. Roedd 1516 o ymatebion i Gwestiwn 3, a oedd yn orfodol, gyda 931 o ymatebion i Gwestiwn 1, a oedd yn ddewisol, a 583 o ymatebion i Gwestiwn 2 a oedd yn ddewisol. O'r rhain, Cwestiwn 2 oedd yr un y llwyddodd yr ymgeiswyr i'w ateb fwyaf llwyddiannus, wedi'i ddilyn yn agos gan Gwestiwn 3, ac yna, Gwestiwn 1.

Yn yr opsiwn hwn, nododd yr arholwyr fod angen gwell dealltwriaeth ar ymgeiswyr o'r ffordd y mae Llywodraeth yr Unol Daleithiau yn gweithredu. Er enghraifft, mae angen iddynt allu nodi adrannau'r llywodraeth ffederal yn gywir.

Uned 3.9: Y newid yn arweinyddiaeth a chymdeithas yr Almaen, tua 1871–1989

Cofrestrwyd 48 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd pob un ohonynt i'r ddau gwestiwn yn unol â'r gofyn. Roedd 48 o ymatebion i Gwestiwn 3, a oedd yn orfodol, gyda 43 o ymatebion i Gwestiwn 1, a oedd yn ddewisol, ac 5 o ymatebion i Gwestiwn 2 a oedd yn ddewisol. O'r rhain, Cwestiwn 3 oedd yr un y llwyddodd yr ymgeiswyr i'w ateb fwyaf llwyddiannus, wedi'i ddilyn yn agos gan Gwestiwn 1, ac yna, Gwestiwn 2.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiynau yn Adran A yn dueddol o fod ar ffurf trafodaeth gyffredinol, gyda rhyw gysylltiadau amwys â'r cwestiwn a osodwyd. Cyfyngedig oedd y farn a gyflwynwyd, a hynny yn aml ar ôl i'r ymgeiswyr ddadlwytho'r holl wybodaeth roeddent yn ei wybod am y cyfnod yn hytrach na'r rhannau a oedd yn berthnasol i'r cwestiynau a osodwyd. Yn Adran B, roedd gwybodaeth yr ymgeiswyr o'r prif fater i'w gweld yn gadarnach; fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser yn wir ar gyfer y cyfnod ehangach. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr ymdriniaeth o'r cyfnod yn arbennig o eang mewn llawer o achosion.

Uned 3.10:Arweinyddiaeth a chymdeithas newidiol yn Rwsia, tua 1881–1989

Cofrestrwyd 55 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd pob un ohonynt i'r ddau gwestiwn yn unol â'r gofyn. Roedd 55 o ymatebion i Gwestiwn 3, a oedd yn orfodol, gyda 44 o ymatebion i Gwestiwn 1, a oedd yn ddewisol, ac 11 o ymatebion i Gwestiwn 2 a oedd yn ddewisol. O'r rhain, Cwestiwn 2 oedd yr un y llwyddodd yr ymgeiswyr i'w ateb fwyaf llwyddiannus, wedi'i ddilyn yn agos gan Gwestiwn 3, ac yn dynn ar ei sodlau, Gwestiwn 1.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn Adran A ar ffurf trafodaeth gyffredinol, a oedd yn cynnwys cyfres o fân farnau nad oeddent mewn gwirionedd yn anelu at ddadl gywir ac ystyrlon am y cwestiwn a osodwyd. Yn Adran B, roedd yr ymgeiswyr yn dueddol o geisio gwyrddroi'r cwestiwn drwy gyflwyno rhestr o sialensiau yr oedd arweinwyr Rwsia yn eu hwynebu; fodd bynnag, ni allai hyn ennill sgôr dda am fod angen iddynt drafod effeithiolrwydd arweinwyr Rwsia wrth fynd i'r afael â'r sialensiau hynny. Er y bu rhywfaint o ymdrech i gynnig ymdriniaeth eang, arweiniodd hyn at ddadlwytho nodiadau dosbarth a cholli ffocws ar y cwestiwn yn achos rhai o'r ymgeiswyr.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Cynghorir yr ymgeiswyr i gofio'r gwahaniaeth rhwng Adran A ac Adran B. Nod y cwestiynau yn Adran A yw herio'r ymgeiswyr i ymdrin â'r mater o fewn amserlen fyrrach, y mae ei dyddiadau wedi'u dewis am reswm.
- Ym mhob cwestiwn, mae angen i'r ymgeiswyr sicrhau eu bod yn ymdrin â'r cyfnod cyfan. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu enwi un digwyddiad yn y dechrau un, un yn y canol ac un ar y diwedd. Yn hytrach, mae'n ymwneud â sicrhau bod yr ymateb yn ymdrin â'r mwyafrif o'r cyfnod a nodir yn y cwestiwn.
- Drwy wneud yr uchod, dylai'r ymgeiswyr allu adnabod newid dros y cyfnod a nodwyd, gan ganolbwyntio, er enghraifft, ar y ffordd yr esblygodd agweddau neu'r sefyllfa economaidd-gymdeithasol a sut yr effeithiodd hyn ar y mater dan sylw yn y cwestiwn.
- Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr gofio bod y cwestiynau wedi'u dylunio i ysgogi dadl. Nid oes un ateb "cywir" ac mae'r ymatebion mwyaf llwyddiannus yn ystyried, yn pwysu a mesur ac yna'n ffurfio barn ar amrywiaeth o ffactorau.
- Mae'n rhaid i'r ymateb ganolbwyntio ar y cwestiwn a osodwyd, hyd yn oed os yw'r ymgeiswyr yn anghytuno â haerid y cwestiwn. Mae'r ymgeiswyr yn rhydd i herio'r cwestiwn a dod i farn gwbl wahanol i'r hyn a gynnigir. Fodd bynnag, ni allant wyrddroi'r cwestiwn er mwyn rhoi'r ateb y maent wedi'i adolygu. Os byddant o'r farn bod y datganiad neu'r syniad dan sylw yn anghywir, bydd angen iddynt esbonio pam a chyfiawnhau'r esboniad hwnnw.

HANES

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2019

Uwch Gyfrannol/Uwch

UNED 4: ASTUDIAETHAU MANWL (RHAN DAU)

Sylwadau Cyffredinol

Ar gyfer Cwestiwn 1, llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i drafod y tair ffynhonnell yn eu tro cyn cynnig barn gyffredinol ar eu gwerth i hanesydd sy'n astudio ymholiad penodol. Roedd ymatebion cwbl werthusol yn mynd i'r afael â "gwerth i hanesydd" drwy gydol yr ymateb, gan ganolbwyntio ar "gwerth" yn hytrach na "defnyddioldeb". Llwyddodd yr ymgeiswyr a berfformiodd yn well i ddadansoddi a gwerthuso'r ffynonellau o ran eu gwerth i hanesydd drwy ystyried pob ffynhonnell yng nghyd-destun ei tharddiad ac yng nghyd-destun y cwestiwn a osodwyd. Dim ond drwy wneud hyn y gall yr ymgeiswyr gyrraedd y bandiau uchaf yn y cynllun marcio, gan y byddant yn darparu cyd-destun penodol yn hytrach na chyd-destun cyffredinol.

Ar gyfer Adran B, llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i ddarparu atebion a aeth y tu hwnt i'r naratif. Gorau po fwyaf o ffocws a roddir ar y cysyniadau allweddol yn y cwestiwn. Fodd bynnag, nid yw nifer sylweddol yn mynd ddim pellach na chynnig mân farnau di-ildio, gan gyfeirio'n amwys at gysyniad allweddol heb geisio esbonio pam y maent yn cefnogi dadl benodol.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Uned 4.1: Argyfwng canol Oes y Tuduriaid yng Nghymru a Lloegr, tua 1529–1570–sialensiau yn wynebu Mari ac Elisabeth, tua 1553–1570

Cofrestrwyd 113 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd bron pob un o'r rheini a safodd yr arholiad i'r ddwy adran yn unol â'r gofyn. Ymatebodd 108 o ymgeiswyr i Gwestiwn 1, a oedd yn orfodol, gyda 99 o ymgeiswyr yn ymateb i Gwestiwn 2, a oedd yn ddewisol, a 10 o ymgeiswyr yn ymateb i Gwestiwn 3 a oedd yn ddewisol. Mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi ei chael hi'n haws asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd—fel oedd yn ofynnol gan Cwestiwn 1—nag ateb y cwestiynau traethawd. O'r cwestiynau diwethaf hynny, roedd canlyniadau Cwestiwn 3 ychydig yn is na chanlyniadau Cwestiwn 2.

Yn yr adran hon, ar gyfer Cwestiwn 1, mae gormod o'r ymgeiswyr yn ailadrodd yr ymadrodd "mae'r ffynhonnell hon yn werthfawr i hanesydd oherwydd..." heb fynd ati mewn gwirionedd i ymgysylltu â'r cwestiwn o gwbl na llunio barn a brofwyd. Mae'n fecanyddol ac yn dangos cyndynrwydd i ymgysylltu'n llawn â'r cwestiwn dan sylw.

Uned 4.2: Brenhiniaeth, gwrthryfel a gweriniaeth, tua 1625–1660—Rhyfel Cartref, Gwerinlywodraeth a Phrotectoriaeth, tua 1642–1660

Cofrestrwyd 121 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd bron pob un o'r rheini a safodd yr arholiad i'r ddwy adran yn unol â'r gofyn. Ymatebodd 117 o ymgeiswyr i Gwestiwn 1, a oedd yn orfodol, gyda 83 o ymgeiswyr yn ymateb i Gwestiwn 2, a oedd yn ddewisol, a 33 o ymgeiswyr yn ymateb i Gwestiwn 3 a oedd yn ddewisol. Mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi ei chael hi'n haws asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd—fel oedd yn ofynnol gan Cwestiwn 1—nag ateb y cwestiynau traethawd. O'r cwestiynau diwethaf hynny, roedd canlyniadau Cwestiwn 3 ychydig yn is na chanlyniadau Cwestiwn 2.

Yn yr adran hon, ar gyfer Cwestiwn 1, mae gormod o'r ymgeiswyr yn ailadrodd yr ymadrodd "mae'r ffynhonnell hon yn werthfawr i hanesydd oherwydd..." heb fynd ati mewn gwirionedd i ymgysylltu â'r cwestiwn o gwbl na llunio barn a brofwyd. Mae'n fecanyddol ac yn dangos cyndynrwydd i ymgysylltu'n llawn â'r cwestiwn dan sylw.

Uned 4.3: Diwygio a phrotest yng Nghymru a Lloegr tua 1783–1848—protestiadau ac ymgyrchu o blaid diwygio cymdeithasol, tua 1832–1848

Cofrestrwyd 189 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd bron pob un o'r rheini a safodd yr arholiad i'r ddwy adran yn unol â'r gofyn. Ymatebodd 185 o ymgeiswyr i Gwestiwn 1, a oedd yn orfodol, gyda 124 o ymgeiswyr yn ymateb i Gwestiwn 2, a oedd yn ddewisol, a 60 o ymgeiswyr yn ymateb i Gwestiwn 3 a oedd yn ddewisol. Mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi ei chael hi'n haws asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd—fel oedd yn ofynnol gan Cwestiwn 1—nag ateb y cwestiynau traethawd. Fodd bynnag, roedd Cwestiwn 3 yn dilyn yn agos, gyda chanlyniadau Cwestiwn 2 ychydig yn is.

Yn yr opsiwn hwn, roedd yn glir bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud wrth nodi cyd-destun penodol y ffynonellau a ddefnyddir yng Nghwestiwn 1, sy'n dda i'w weld. Fodd bynnag, anogir y canolfannau i barhau i fireinio sgiliau ysgrifennu traethawd eu hymgeiswyr.

Uned 4.4: Gwleidyddiaeth a chymdeithas yng Nghymru a Lloegr tua 1900–1939—sialensiau economaidd a chymdeithasol yng Nghymru a Lloegr, tua 1918–1939

Cofrestrwyd 69 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd pob un ohonynt i ddwy adran y papur arholiad yn unol â'r gofyn. Atebodd pob un ohonynt y cwestiwn cyntaf a oedd yn orfodol, gyda 43 o'r ymgeiswyr yn dewis ymateb i Gwestiwn 2 a 26 o'r ymgeiswyr yn ymateb i Gwestiwn 3. Mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi ei chael hi'n haws asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd—fel oedd yn ofynnol gan Cwestiwn 1—nag ateb y cwestiynau traethawd. Fodd bynnag, roedd Cwestiwn 3 yn dilyn yn agos, gyda chanlyniadau Cwestiwn 2 ychydig yn is.

Roedd y cwestiwn penodol a osodwyd fel Cwestiwn 1 yn ymwneud ag effeithiau'r rhyfel ar bobl Cymru a Lloegr ac roedd yn amlwg bod angen ymdriniaeth fanylach ar hyn na'r dull cyffredinol o nodi '*mae'r ffynonellau'n dangos hyn i ni*'. Roedd yr ymgeiswyr a ganolbwyntiodd ar yr ymholiad gosod yn gwneud yn dda am eu bod yn mynd i'r afael â'r cwestiwn ac yn rhoi cyd-destun penodol a esboniodd pam yr oedd awduron y ffynonellau wedi dweud yr hyn a ddywedasant ar y pryd. Byddai cyfnod o fyfyrion yng Nghwestiwn 2 wedi caniatáu i'r ymgeiswyr nodi "beth oedd y sialensiau" a wynebodd lywodraeth y cyfnod rhwng 1918 a 1931, yn hytrach na thrafod y digwyddiadau yn y cyfnod a dim ond nodi eu bod yn her.

Roedd gwybodaeth llawer o'r ymgeiswyr o'r cyfnod rhwng 1918 a 1931 i'w gweld yn amwys. Serch hynny, roedd gwybodaeth am "ddatblygiadau gwleidyddol" ar gyfer Cwestiwn 3 yn well, gan fod llawer o'r ymgeiswyr wedi gallu canolbwyntio ar y prif gysyniad a chynnig rhai ymatebion da.

Uned 4.5: Diwygiad crefyddol yn Ewrop, tua 1500–1567–lledaeniad Protestaniaeth a'r Gwrthddiwygiad, tua 1531–1564

Cofrestrwyd 37 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd bron pob un o'r rheini a safodd yr arholiad i'r ddwy adran yn unol â'r gofyn. Ymatebodd 36 o ymgeiswyr i Gwestiwn 1, a oedd yn orfodol, gyda 7 o ymgeiswyr yn ymateb i Gwestiwn 2, a oedd yn ddewisol, a 29 o ymgeiswyr yn ymateb i Gwestiwn 3 a oedd yn ddewisol. Mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi ei chael hi'n haws asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd—fel oedd yn ofynnol gan Cwestiwn 1—nag ateb y cwestiynau traethawd. Fodd bynnag, roedd Cwestiwn 3 yn dynn ar ei sodlau, gyda chanlyniadau Cwestiwn 2 ychydig y is.

Yn yr ymatebion i Gwestiwn 1, roedd llawer o achosion o werthuso ffynonellau heb ffocws, heb fod wedi'i gysylltu â'r gwerth i hanesydd sy'n astudio'r ymholiad penodol hwn, ac yn aml, roedd y dadansoddiad hwn yn negyddol iawn. Gyda'r cwestiynau traethawd, cyfeiriodd nifer sylweddol o'r ymgeiswyr at ran (a) o'r Astudiaeth Fanwl yn hytrach na chanolbwyntio ar y cyfnod dan sylw wrth ddarparu enghreifftiau i esbonio eu dadleuon.

Uned 4.6: Ffrainc yng nghyfnod y Chwyldro, tua 1774–1815–Ffrainc: gweriniaeth a Napoleon, tua 1792–1815

Cofrestrwyd 128 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd bron pob un o'r rheini a safodd yr arholiad i'r ddwy adran yn unol â'r gofyn. Ymatebodd 124 o ymgeiswyr i Gwestiwn 1, a oedd yn orfodol, gyda 76 o ymgeiswyr yn ymateb i Gwestiwn 2, a oedd yn ddewisol, a 49 o ymgeiswyr yn ymateb i Gwestiwn 3 a oedd yn ddewisol. Mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi ei chael hi'n haws asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd—fel oedd yn ofynnol gan Cwestiwn 1—nag ateb y cwestiynau traethawd. Fodd bynnag, roedd Cwestiwn 3 yn dilyn yn agos, gyda chanlyniadau Cwestiwn 2 ychydig yn is.

Roedd yr ymgeiswyr wedi gallu deall y ffynonellau, ac ar y cyfan, gwnaethant lunio ymatebion da. Mae'n bwysig ymdrin â chyd-destun penodol y ffynonellau yn ogystal â'u cyd-destun cyffredinol. Yn y cwestiwn traethawd, gwelwyd nifer o'r ymgeiswyr yn ymgysylltu'n llawn â'r cwestiwn ac yn cynnig trafodaeth ystyrlon a ddaeth i farn gytbwys, a chawsant eu gwobrwyo'n briodol am hynny.

Uned 4.7: Argyfwng y Weriniaeth Americanaidd, tua 1840–1877—rhyfel cartref ac ailymgorffori, tua 1861–1877

Cofrestrwyd 128 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd bron pob un o'r rheini a safodd yr arholiad i'r ddwy adran yn unol â'r gofyn. Ymatebodd 126 o ymgeiswyr i Gwestiwn 1, a oedd yn orfodol, gyda 106 o ymgeiswyr yn ymateb i Gwestiwn 2, a oedd yn ddewisol, a 20 o ymgeiswyr yn ymateb i Gwestiwn 3 a oedd yn ddewisol. Mae'n ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi ei chael hi ychydig yn haws asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd—fel roedd yn ofynnol yng Nghwestiwn 1—nag ateb y cwestiynau traethawd. Fodd bynnag, roedd Cwestiwn 3 yn dilyn yn agos, gyda chanlyniadau Cwestiwn 2 ychydig yn is.

Yn yr opsiwn hwn, roedd yn glir bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud wrth nodi cyd-destun penodol y ffynonellau a ddefnyddiwyd yng Nghwestiwn 1, sy'n dda i'w weld. Fodd bynnag, anogir y canolfannau i barhau i fireinio sgiliau ysgrifennu traethawd eu hymgeiswyr.

Uned 4.8: Yr Almaen: democratiaeth ac unbennaeth, tua 1918-1945—yr Almaen Natsïaidd, tua 1933–1945

Cofrestrwyd 1446 o ymgeiswyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac ymatebodd bron pob un o'r rheini a safodd yr arholiad i'r ddwy adran yn unol â'r gofyn. Ymatebodd pob un o'r ymgeiswyr i Gwestiwn 1, a oedd yn orfodol, gyda 1 178 o ymgeiswyr yn ymateb i Gwestiwn 2, a oedd yn ddewisol, a 267 o ymgeiswyr yn ymateb i Gwestiwn 3 a oedd yn ddewisol. Dim ond yn yr adran hon y cafodd yr ymgeiswyr fwy o lwyddiant wrth ateb un o'r cwestiynau traethawd nag asesu gwerth y tair ffynhonnell a gyflwynwyd i hanesydd (fel roedd yn ofynnol yng Nghwestiwn 1). Cwestiwn 3 oedd â'r ffactor hygyrchedd uchaf, gyda Chwestiwn 1 yn ei ddilyn yn agos, a Chwestiwn 2 ychydig y tu ôl i hwnnw.

Yn yr un modd â'r UG, mae gormod o achosion o grynhoi'r ffynonellau yn y cwestiynau sy'n seiliedig ar ffynonellau, gyda phwyslais ar gryfderau a gwendidau yn hytrach na'u gwerth i hanesydd sy'n chwilio am atebion i'r ymholiad gosod. Yn y cwestiynau traethawd, roedd gormod o grwydro o'r cwestiwn a osodwyd o blaid trafodaeth gyffredinol heb ddim ond cysylltiadau amherthnasol â'r prif faterion a godwyd.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Dylid canolbwyntio ar yr Ymholiad Gosod (ASE) yng Nghwestiwn 1: nid yw'n gwestiwn o "werth i hanesydd" yn gyffredinol, ond cwestiwn o "werth i hanesydd o ran ymholiad penodol".
- Dylid canolbwyntio ar gyd-destun gwirioneddol y ffynhonnell—ystyried yr hyn a oedd yn darbwyllo'r awdur i ddweud neu ysgrifennu'r hyn a wnaeth ar yr adeg benodol honno.
- Dylid ymatal rhag gwneud sylwadau gwerthuso ffynhonnell mecanyddol, er enghraifft, "nid oes unrhyw werth i'r ffynhonnell am ei bod yn unochrog". Byddai hanesydd yn gwybod p'un a yw ffynhonnell yn unochrog ai peidio, ac yn amlach na pheidio, mae'r rhagfarn honno yn cyfrannu at werth y ffynhonnell.
- Dylid canolbwyntio ar y cysyniad allweddol yn y cwestiwn yn nhraethodau Adran B ac ymdrin â'r cyfnod cyfan fel y mae'r cwestiynau hynny yn ei nodi.

HANES

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2019

Uwch Gyfrannol/Uwch

UNED 5: ASESIAID DI-ARHOLIAD

Sylwadau Cyffredinol

Hon yw blwyddyn olaf y cylch tair blynedd gwreiddiol ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs ar gyfer y fersiwn presennol o'r cwrs TAG Hanes. Drwy gydol hanner cyntaf 2019, mae'r canolfannau wedi bod yn cyflwyno eu teitlau diwygiedig ar gyfer cylch 2020–2022 yr asesiad di-arholiad, a gaiff ei asesu am y tro cyntaf yng ngwanwyn a haf 2020.

Os nad ydych wedi cyflwyno teitl diwygiedig asesiad di-arholiad eich canolfan eto, sicrhewch eich bod yn gwneud hynny erbyn diwedd mis Rhagfyr eleni. Mae cyfarwyddiadau llawn am hyn—gan gynnwys esboniad o'r gwahaniaethau y mae angen eu gwneud i'r teitlau er mwyn sicrhau eu bod yn sylweddol wahanol i gylch 2017–2019—ar gael ar dudalennau TAG Hanes gwefan CBAC.

Ar y cyfan, mae'r ymgeiswyr yn perfformio'n dda yn yr uned hon; fodd bynnag, mae rhai pryderon yn parhau. Y prif bryder yw defnydd yr ymgeiswyr o ffynonellau sylfaenol a chyfoes. Mae gormod o'r ymgeiswyr yn dal i ddefnyddio deunydd ffynhonnell nad yw'n sylfaenol na chyfoes yn eu hymatebion. Mae gwaith haneswyr yn ddefnyddiol fel detholiadau i ategu ymateb, ond ni ddylid eu defnyddio ar eu pen eu hunain. Datblygwyd y dasg hon er mwyn profi gallu'r ymgeiswyr i ymdrin â deunydd ffynhonnell sy'n perthyn i gyfnod y digwyddiadau dan sylw, dadansoddi a gwerthuso'r deunydd ffynhonnell hwn yn ei gyd-destun hanesyddol a'i ddefnyddio i ddangos sut a pham y mae elfennau o'r gorffennol wedi cael eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr gofio mai'r **uchafswm** geiriau ar gyfer y dasg hon yw **4000 o eiriau**, ac eithrio'r geiriau a ddefnyddir yn y ffynonellau, dyfyniadau (lle y'u defnyddir) a chyfeiriadau yn y testun (lle y'u defnyddir). Os bydd ymgeiswyr yn mynd y tu hwnt i'r terfyn hwn, ni fydd eu hymateb yn bodloni'r maen prawf o fod yn "gryno" fel yr amlinellir ym Mand 6 Amcan Asesu 1 y fanyleb TAG Hanes.
- Disgwylir i'r ymgeiswyr ddadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o ddeunydd sy'n sylfaenol neu gyfoes o ran y cyfnod dan sylw. Er mwyn sicrhau bod y dasg hon yn hylaw, cynghorir y dylid cadw at rhwng chwech ac wyth ffynhonnell sylfaenol neu gyfoes. Ystyrir na fydd llai na chwech yn cynnig ehangder digonol.
- Caiff yr ymgeiswyr gyfeirio at ddetholiadau o waith haneswyr, ond nid yw'r rhain yn dderbyniol fel deunydd ffynhonnell priodol—a rhaid peidio â'u cydnabod felly.

- Caiff yr ymgeiswyr ddefnyddio troednodiadau neu ôl-nodiadau i restru'r ffynonellau a ddefnyddiwyd, neu i ddarparu'r fersiynau iaith wreiddiol o'r ffynonellau y gallent fod wedi'u cyfieithu eu hunain. Nid yw'r nodiadau ychwanegol hyn yn cael eu cynnwys yn y cyfrif geiriau terfynol. Fodd bynnag, os bydd ymgeisydd yn defnyddio troednodiadau a/neu ôl-nodiadau i ddatblygu ei ddadl ac felly'n osgoi cyfyngiadau'r cyfrif geiriau, bydd yn rhaid i'r deunydd hwnnw gael ei anwybyddu ac nid oes modd rhoi marciau amdano.
- Mae angen llyfryddiaeth, ond nid ydym yn nodi math penodol. Efallai y bydd rhai ymgeiswyr yn ei chael yn hwylus cadw at ganllawiau safon benodol, fel y Chicago Manual of Style neu'r MLA, ond nid yw'n ofynnol i'r ymgeiswyr ddilyn unrhyw ganllaw arddull penodol. Y cyfan yr ydym yn ei ofyn yw bod cyfeiriadau a llyfryddiaethau'r ymgeiswyr yn glir, yn unffurf a'u bod yn galluogi'r cymedrolwr i gadarnhau cywirdeb y ffynhonnell a gyflwynir. Mae manyleb TAG Hanes yn cynnig rhagor o gyngor ar y mater hwn.
- Os bydd mwy nag un athro yn gyfrifol am asesu'r Asesiad Di-arholiad, atgoffir canolfannau bod angen iddynt ddarparu tystiolaeth i ddangos bod proses cymedroli mewnol wedi'i chynnal. Os bydd un athro wedi marcio'r gwaith i gyd, ni fydd angen tystiolaeth.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
Gwefan: www.cbac.co.uk